

CANOLFAN IAITH DOLGELLAU 2009 - 2010

Sefydlwyd Canolfan Iaith Dolgellau ar safle Ysgol y Gader ym mis Medi 1997 fel estyniad o Ganolfan Iaith Cefn Coch, Penrhyndeudraeth.

Oherwydd cynnydd yn y nifer o blant a oedd yn dymuno dod i'r ganolfan a'r newidiadau ym myd addysg, daeth yn amlwg nad oedd y safle fel ag yr oedd yn addas i ofynion y Ganolfan.

Felly ar ôl cydweithio'n hapus am gyfnod o dros ddeuddeg mlynedd, penderfynwyd symud y Ganolfan Iaith o Ysgol y Gader i safle newydd ar Cae Penarlâg yn Nolgellau.

Addaswyd (Gweddnewidwyd) safle'r hen archifdy ym Mhenarlâg yn adeilad pwrpasol ar gyfer y Ganolfan Iaith. Mae'r adeilad a gynlluniwyd yn chwaethus gan Gyngor Gwynedd yn ddelfrydol ar gyfer gwaith y Ganolfan. Mae'r olygfa o'r ystafell ddosbarth yn un gwerth i'w gweld ac yn sicr o ysbrydoli'r disgyblion wrth eu gwaith.

Ar 21 o Fedi 2009, agorwyd drysau'r Ganolfan Iaith ar ei newydd wedd am y tro cyntaf a derbyniwyd 7 o ddisgyblion newydd ar gyfer Tymor yr Hydref. Un plentyn o Ysgol Gynradd Pennal, un o Ysgol Penybryn Tywyn, un

o ysgol leuan Gwynedd Rhyd-y-main, un o Ysgol Beuno Sant a thri o'r Ysgol Gynradd yn Nolgellau.



Mae'r Ganolfan Iaith wedi ei lleoli drws nesaf i'r Ysgol Gynradd yn Nolgellau a mawr yw ein diolch i Mr Wil Williams y Pennaeth, a holl staff yr Ysgol Gynradd am ein croesawu a chaniatau i ni rannu adnoddau ac integreiddio efo'r Ysgol Gynradd.


Mae plant y ganolfan yn ymuno â phlant yr ysgol i gael cinio yng nghantîn yr ysgol gynradd ac hefyd yn cael chwarae efo plant yr ysgol yn ystod amser egwyl bob dydd.

Yn ystod tymor y Gwanwyn 2010, bu'n rhaid i ni a disgyblion newydd y ganolfan symud o'r Ganolfan Newydd ac ymgartrefu yn yr Ysgol Gynradd am gyfnod o bedair wythnos a hyn oherwydd yr angen i ddyrchwyl hen

adeilad a oedd wedi ei leoli o flaen y Ganolfan Iaith newydd. Tra'r oedden ni yno cafodd y disgyblion brofiad newydd ac unigryw sef gwahoddiad i ymuno i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi efo disgyblion yr Ysgol Gynradd.



Erbyn hyn rydyn ni ar ein trydydd tymor ac mae 8 o ddisgyblion newydd wedi ymgartrefu yn y ganolfan am dymor yr Haf.



ATHRAWON ARDDERCHOG!

Gwobrau Addysgu 2010 - llwyddiant eto!

Llwyddodd Gwenan Elis Jones, Pennaeth Canolfan Iaith Maesincla, i ennill gwobr **'Llywodraeth Cynulliad Cymru am Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg mewn Ysgol'** ym mis Mehefin eleni. Yma gwelir hi yn ystod y Seremoni Gwobrau Addysgu 2010 yng Nghaerdydd pan gyflwynwyd y wobr iddi.

Mae hyn yn dilyn llwyddiant Carys Lake, Pennaeth Canolfan Iaith Uwchradd

Gwynedd a enillodd y wobr yn 2008.

Dengys hyn werthfawrogiad o gyfraniad aruthrol athrawon y Canolfannau Iaith i'r gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

